| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 17 Mawrth 2000 |
| **Amser:** | 10.00am - 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd y Sir (Cyngor Sir y Fflint), Yr Wyddgrug |

**BLAEN RAGLEN WAITH**

**Diben**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried ei raglen waith hyd doriad yr haf.

**Cefndir**

2. Ar hyn o bryd, mae Pwyllgorau Rhanbarth yn anelu at gyfarfod ddwywaith y tymor. Maent hefyd wedi cyfarfod mewn 'sioeau teithiol' ehangach ar faterion trawsbynciol, er enghraifft ariannu Amcan 1 a datblygu cynaliadwy.

**Dyddiadau**

3. Mae tri dyddiad ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau rhanbarth cyn toriad yr haf. Y dyddiadau hynny yw 14 Ebrill, 16 Mehefin ac 14 Gorffennaf (sef y diwrnod olaf cyn toriad yr haf).

**Pynciau i'w hystyried**

4. Mae nifer o wahanol gyrff wedi cysylltu â'r Cadeirydd neu'r ysgrifenyddiaeth yn gofyn am gyfle i annerch y Pwyllgor.

| **Corff** | **Diben** |
|---|---|
| Cyswllt Busnes Gogledd Cymru | Trafod dull gwaith newydd Cyswllt Busnes sydd wedi'i fabwysiadu yn y Gogledd. |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Cwrdd â chyrff gwirfoddol perthnasol yn y Gogledd. |

| | |
|---|---|
| Partneriaeth Gofal Plant Wrecsam | Anghysondeb ariannu Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cymru a Lloegr. |
| Cymdeithas y Cerddwyr | |
| Partneriaeth Bwyd-Amaeth - Y Gogledd | Hysbysu'r Pwyllgor yngln â gweithgareddau yn y Gogledd. |

5. Hefyd, mae dau gorff sydd eisoes wedi cwrdd â'r Pwyllgor - Awdurdod Iechyd y Gogledd a Fforwm Economaidd y Gogledd - wedi gofyn am gyfle i wneud hynny eto.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn i'r Pwyllgor drafod cyfeiriadau post yr ynys. Cefnogwyd y cais hwnnw gan nifer o Aelodau.

Mae Alun Pugh wedi awgrymu bod y Pwyllgor yn edrych ar drydaneiddio rheilffordd y Gogledd.

Cododd Dafydd Wigley gwestiwn y cynllun grantiau gwledig.

**Lleoliadau**

6. Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi cynnal cyfarfodydd yng Nghonwy, Rhyl, Wrecsam, Caernarfon, Maentwrog a'r Wyddgrug. Yr unig awdurdod unedol nad yw'r Pwyllgor wedi ymweld ag ef eto yw Ynys Môn.

**Ystyriaethau eraill**

7. Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried creu themâu ar gyfer cyfarfodydd. Er enghraifft, dan thema trafnidiaeth, gallai'r Pwyllgor edrych ar drydaneiddio rheilffordd y Gogledd, sesiwn gyda Chymdeithas y Cerddwyr a llwybr seiclo 'Sustrans' y Gogledd.

8. Bwriedir cynnal trafodaeth lawn o waith y pedwar pwyllgor rhanbarth dros y flwyddyn yn ystod tymor yr haf. Byddai'n gwneud synnwyr i'r Pwyllgor drafod ei gyfraniad i'r ddadl honno yn y cyfarfod ym mis Mehefin, a hefyd gyfarfod ym mis Gorffennaf i'r Cadeirydd newydd edrych ar unrhyw faterion yn codi o'r ddadl lawn.

9. Gan gofio'r pwyntiau hyn, **gofynnir i'r pwyllgor gytuno ar y canlynol:**

1. ar ba rai o'r dyddiadau sydd ar gael y mae am gynnal cyfarfod;
1. y materion i'w hystyried a'r cyrff y mae am eu gwahodd i'r cyfarfodydd hynny; a
1. lle i gynnal y cyfarfodydd.